**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**6/9/22**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Euros Roberts (s-Gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri P Jones, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2388** **Croesawyd** yr aelodau gan y Cadeirydd, ac ar ran y Cyngor llongyfarchodd pawb a fu'n ymwneud gyda threfniadau mwyniant cymunedol dros yr haf, a diolchodd iddynt am eu gwaith gwirfoddol.

Mynegwyd cydymdeimlad gyda theulu Alwyn M Roberts a theulu Beryl Hughes Griffiths yn eu profedigaeth diweddar.

**2389** **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Alwyn E Jones ac Alwyn Roberts.

**2390** **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**Cofnodion** cyfarfod Gorffennaf: Derbyniwyd fel rhai cywir

**2391** **Adroddiad y Clerc**: Trafodwyd cynnwys manylion cyswllt ar y wefan a chytunwyd i barhau gyda chyhoeddi cyfeiriadau a rhifau ffôn.

**2392** **Cyngor Gwynedd:** Eglurodd y Clerc nad oedd Cynghorydd Gwynedd ar gael i Ardal Llanuwchllyn ar hyn o bryd oherwydd gwall gweinyddol yn dilyn etholiad Mai 2022; cynhelir etholiad ar 22/9/22

**2393** **Is-bwyllgorau:** Nid oedd adroddiadau na sylwadau o'r is-bwyllgorau y mis hwn, ond cytunwyd bod angen i'r Cadeiryddion alw cyfarfodydd yn fuan. Cytunwyd ymhellach fod hawl gweithredu a gwario o fewn y gyllideb gan yr is-bwyllgorau. Disgwylir clywed adroddiad o benderfyniadau is-bwyllgorau mewn cyfarfod dilynol o'r Cygor – a hynny er mwyn derbyn cymeradwyaeth y Cyngor llawn, ac nid er mwyn ail-drafod materion a benderfynwyd arnynt gan yr is-bwyllgor.

- **i.** **Grwp Datblygu:** bydd trefnu Hyfforddiant cynllunio ar y cyd gyda Llangywer yn eitem ar yr Agenda.
- ii. **Mynwentydd:** mae angen sylw ar y garreg bafin wrth hen leoliad y bin; bydd Alwyn M Roberts yn galw am wirfoddolwyr i dorri'r gwrych. Bydd angen trin bonion y 2 goeden a gwympwyd.
- iii. **Bioamrywiaeth:** mae angen cyfarfod yn fuan iawn.
- **iv.** **Nadolig**
- v. **Asedau:** cadwyd cais i Gynghorwyr gysylltu ar unwaith gyda'r Cadeirydd os oes angen sylw ar yr ased unigol y mae pob Cynghorydd yn cadw llygad arno. Mae angen trafod gwelliannau i'r ciosg, ac hefyd y tap a draeniau yn y Cyfleusterau.
- vi. **Cyllid:** Mae angen cyfarfod monitro'r cyllid y mis hwn.

2394 **Materion ariannol:** Diolchwyd i'r SAC am e-bostio manylion y sefyllfa ddiweddaraf. Derbyniwyd ail hanner y praesept. Cytunwyd gyda'r penderfyniad i barhau gyda'r cytundeb trydan yn y toiledau am flwyddyn. Mae cyfraniadau hael a sylwadau canmoliaethus am lanweithdra'r toiledau yn parhau i gyrraedd.

Cytunwyd i wneud yr ail gyfraniad tuag at Eisteddfod Powys fel a gytunwyd 7/12/21, Cofnod 2307v CYFRANIADAU:

*Eisteddfod Powys 2021: £100 yn 2019 (gydag addewid o £100 yn 2021)*

Gohiriwyd gwneud yr ail daliad uchod oherwydd yr ansicrwydd adeg covid19.

2395 **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Huw Antur a ddywedodd fod agwedd Llesiant o waith yr Henblas yn carlamu yn ei flaen, gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn dymuno defnyddio'r adnoddau yn y Ganolfan ac yng Nghanolfan Tegid i hybu gwasanaethau llesiant. Disgwylir cyflogi person arall.

Mae cynnal a chadw Llwybr Tegid bellach yn rhan o waith y Bartneriaeth, ac mae'r gwaith am eleni mewn llaw.

Mae'r gwaith cynnal a chadw Llwybr Cei mewn llaw gyda Phartneriaeth Penllyn.

Tynnwyd sylw eto at yr ymgynghoriad ar Deithio Llesol, a e-bostiwyd yn flaenorol.

2396 **Cynllunio:** Ystyriwyd cais am farn ar geisiadau cynllunio.

**NP5/71/485** Adeiladu garej newydd ynghlwm gyda llety gorlif ar gyfer y prif annedd ar y llawr cyntaf Bryn Derw, Llanuwchllyn. LL23 7ST

Cytunwyd i fynegi consyrn am y cais uchod:

- Mae'r fynedfa o'r A494 yn hynod beryglus ac mae pryderon am ddiogelwch gyda mwy o ddefnydd o'r annedd
- Mae'n or-ddatblygiad o'r tŷ gwreiddiol, gyda'r canlyniad
  - Y bydd yn colli ei gymeriad gwreiddiol
  - Byddai ei werth yn uwch na gallu pobl leol i'w brynu pe byddai'n mynd ar y farchnad

Oherwydd y pryderon uchod, nid oedd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn gallu cymeradwyo'r cais.

**NP5/71/48B** Cofnodwyd cymeradwyo trwy e-bost ym mis Gorffennaf cais **i** adeiladu estyniad, Bryn Cefni, Llanuwchllyn, oherwydd ei fod yn estyniad naturiol sy'n gweddu i'r adeilad presennol.

2397 **Gohebiaeth:** Ystyriwyd

i. Un Llais Cymru: Rhestr hyfforddiant Medi (e-bostiwyd)
ii. Un Llais Cymru: Cynhadledd Arfer Arloesol 14/9/22 (e-bostiwyd)

iii. Cyngor Gwynedd: cyfarchion wrth Steffan Prys Roberts, Swyddog Cefnogi Cymunedau
iv. Planning Aid – hyfforddiant a chylchlythyr
v. Parc Cenedlaethol Eryri: rhag-hysbysiad Cyfarfodydd Blynyddol y Cynghorwyr 25 a 27 Hydref
vi. Llywodraeth Cymru: ymgynghoriad ar Dreth Cyngor Decach (e-bostiwyd)
vii. Llywodraeth Cymru: cynllun bioamrywiaeth, a Rheoli Glaswelltir (e-bostiwyd)
viii. Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd (e-bostiwyd)
ix. Llywodraeth Cymru Grant Creu Coetir
x. Llywodraeth Cymru Grant Cymunedau Gwydn
xi. Grant cefnogi ysgolion: cytunodd unigolion i ddwyn hwn i sylw'r ysgol

**2398 Materion y Cynghorwyr**

i. Derbyniwyd gwybodaeth fod gwaith yn cael ei wneud i ddiogelu pont Talardd
ii. Cytunodd y Clerc i anfon at adran Pontydd ac Amgylchfyd Cyngor Gwynedd i ofyn am waredu'r coed sydd yn tyfu o hen bont y lein.
iii. Cytunwyd i roi arwydd answyddogol wrth bwmp y Llan ar Agenda'r mis nesaf.
iv. Trafodwyd eto cyflymder cerbydau ar yr A494, ac yn arbennig rhwng Tyddyn Felin a ffordd Y Prys. Cynigiodd y Clerc wneud cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am ddamweiniau ar hyd yr A494 rhwng Dolgellau a'r Bala gyda'r bwriad o ofyn am gyfyngiad cyflymder.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 4/10/22

Amser gorffen: 9.00pm